Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Pecyn Recriwtio Staff

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Sir Conwy … Dewch i'w gweld â'ch llygaid eich hun

Pantiau a bryniau, mynyddoedd creigiog a milltiroedd ar filltiroedd o arfordir ysblennydd, dyw'r rhain yn ddim ond ychydig o'r pethau sy'n gwneud y gornel hon o'r byd yn lle gwych i fyw ac i weithio ynddi.

Mae llawer mwy i fyw yng Ngogledd Cymru na amsugno'r harddwch naturiol (er bod hyn gennym fesul hectar). Mae'n golygu cael blas ar ein hanes, iaith, celf, cerddoriaeth, siopau gwych a bwyd bendigedig. Cylchoedd cerrig, caerau, cestyll, chwaraeon dŵr, golff. Mae'r cyfan gennym ni! Ddaru ni sôn hefyd am y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr?

Felly, os ydych chi yn chwilio am sir wych i fyw a gweithio ynddi, beth am roi cip ar yr hyn sydd gan Gonwy i'w chynnig.

Dyffryn Conwy o Baclaw

Bywyd Gwyllt

Bychan ond eto'n amrywiol, mae ein tirwedd werthfawr yn berwi â bywyd drwy gydol y flwyddyn.

Hefyd, does dim rhaid i chi fentro ymhell i werthfawrogi lliwiau a synau ein preswylwyr gwyllt.

Morloi yn ein dyfroedd arfordirol

Glöyn Byw'r Glesyn Serennog

Betws y Coed

Bwlch Sychnant

Milltiroedd o arfordir prydferth

Tirweddau Gaeafol Cymru

Brigiadau unig, coedwigoedd trwchus a mwy na digon o deithiau trwy'r coed, mae taith trwy ein tirwedd yn gyfle heb ei ail i weld ein bywyd gwyllt godidog. Gyda'n toreth o blanhigion, adar, anifeiliaid a bwyd morol, rydych yn siŵr o weld rhai ffefrynnau cyfarwydd, ac efallai ambell i beth annisgwyl.

Mae Coed Bodlondeb yn nhref Conwy yn goedwig dawel efo golygfeydd gwych o'r foryd o'r mannau agored. Mae'n frith o wahanol rywogaethau coed gan gynnwys coed derw, ynn a cheirios, a thrigolion eraill gan gynnwys llwynogod, gwiwerod a'r cudyll glas.

Mae Coed Pwllycrochan, sy'n ymestyn dros fryniau Bae Colwyn, yn gartref i goed collddail cynhenid yn bennaf ynghyd â rhywogaethau eraill gan gynnwys coed castan a phinwydden. Mae yna ddigon o fannau coediog eraill i ymweld â nhw hefyd, pob un gyda'i gymysgedd unigryw o breswylwyr.

Aiff taith fer yn y car (neu ar droed) a chi i dirwedd llawn awyrgylch Pensychnant, gyda'i ferlod gwyllt hardd, a gwas y neidr prin uwchlaw'r llyn bychan ar dop y bryn.

Mae helaethrwydd y Gogarth o fywyd gwyllt yn cynnwys glöyn byw a phlanhigion prin, geifr gwyllt Kashmir a chytrefi hynod o adar y môr, o wylanod coesddu i'r bilidowcar. Trowch eich llygaid draw oddi wrth y clogwyni ac efallai y gwelwch ambell i forlo, morhychod neu ddolffin trwynbwl yn nyfroedd arfordirol Môr Iwerddon.

Mae mwy na 200 rhywogaeth o adar yng Ngwarchodfa RSPB Conwy ar ddyfroedd a glannau'r foryd. Gellir gweld llawer o amrywiaethau cyffrous drwy gydol y flwyddyn. Gyda llwybrau troed, arsyllfeydd, teithiau tywys a llwybrau arbennig ar gyfer plant, mae hon i'r dim ar gyfer gwylwyr adar profiadol a'r rhai sy'n rhoi cynnig arni am y tro cyntaf.

Tir fferm ydi rhan helaeth o gefn gwlad Conwy, ac mae yna ddigon o lwybrau troed i'w dilyn dros fryniau a dolydd gwyrdd a hardd. Cadwch lygad am bethau prin fel y dylluan wen neu rywogaethau fel y dyfrgi a llygoden y dŵr gerllaw'r afonydd a'r nentydd.

O warchodfeydd natur i dir gwyllt anghysbell, mae cynefinoedd amrywiol Conwy yn brydferth a thoreithiog drwy gydol y flwyddyn, boed hynny'n ffrwydrad o fywyd newydd yn y gwanwyn, blodau ac adar yr haf, lliwiau llachar yr hydref, neu'n dirweddau gwasgarog y gaeaf.

Etifeddiaeth

O bensaernïaeth gain Fictorianaidd i waliau maluriedig a gwaith pridd ein cyndadau hynafol.

Mae ein hetifeddiaeth gyfoethog yn rhoi i Sir Conwy ei chymeriad arbennig, ac efo'i stori unigryw i'w hadrodd, mae pob lle yn rhoi cipolwg hudol o'r gorffennol.

Castell Dolwyddelan

Peunod yng Nghastell Gwydir

Tŷ Aberconwy, Conwy

Plas Mawr, Conwy

Llys Euryn, Llandrillo-yn-Rhos

Mae tref Conwy yn lle delfrydol i ddechrau archwilio'r hanes lleol. Mae'r castell dramatig o'r G13 yn edrych i lawr ar un o'r enghreifftiau gorau yn Ewrop o dref gaerog ganoloesol. Credir mai Tŷ Aberconwy, sy'n dyddio nôl i'r G14, yw'r tŷ tref hynaf sy'n dal i fodoli yng Nghymru, ac yn ddim ond tafliad carreg i ffwrdd o Blas Mawr, y tŷ tref o oes Elisabeth efo'i dŵr nodedig a'i waith plastr mewnol hardd.

Ar hyd yr arfordir yn Llandrillo-yn-Rhos mae gweddillion bryngaer hynafol Bryn Euryn, ac adfeilion Llys Euryn a adeiladwyd ar safle palas o'r G13. Ond mae ein hanes lleol yn mynd nôl llawer pellach. Mae gwaith cloddio ym mhyllau copr 4,000 mlwydd oed y Gogarth wedi datgelu miloedd o offer esgyrn, yn ogystal â channoedd o lwybrau cynhanesyddol.

Ymhellach i mewn i'r tir gellir gweld gweddillion unig Castell Dolwyddelan o filltiroedd draw ar gefnen Eryri. Wedi'i adeiladu gan Llywelyn Fawr, dyma un o'r ychydig gestyll Cymreig swyddogol. Mae'n werth ei weld, pe bai hynny ond am y golygfeydd.

Mae Castell Gwydir yng nghanol gerddi bendigedig Dyffryn Conwy yn enwog am ei beunod a'i ysbrydion, dyma un o esiamplau tecaf o dŷ cwrt Tuduraidd.

O erddi plasau gwledig i erddi cyhoeddus, mae gennym rai o enghreifftiau gorau'r wlad, i gyd ar ein trothwy. Mae'n rhaid i arddwyr brwd neu'r rheiny sy'n mwynhau'r pleserau symlaf mewn bywyd weld Gerddi enwog Bodnant. Mae yno erddi teras a gerddi gwyllt, lawntiau perffaith ac ystod anferth o blanhigion o bob cwr o'r byd. Mae'r camelias yn y gwanwyn, blodau'r seithliw yn yr haf a'r coed â'u ffrwythau yn yr hydref yn ddim ond rhai o'r uchafbwyntiau tymhorol.

O'i fan cysgodol ar y Gogarth, mae golygfeydd ysblennydd o'r Fach dros fae Llandudno. Mae ychydig o waith adfer yng Ngerddi Haulfre ar wyneb deheuol y Gogarth wedi dod â'r hen ffefryn hwn yn ôl i'w anterth.

O dai mawreddog, i erddi addurnedig, mae ein hetifeddiaeth hyfryd yn rhan annatod o'n bywydau, a reolir yn ofalus i ni ei fwynhau heddiw ac am flynyddoedd i ddod.

Tywod a Thonnau

Does dim byd cystal na diwrnod ar lan y môr, ac yn Sir Conwy dydych chi byth yn bell oddi wrth draeth.

O gyrchfannau llawn bywyd i lannau unig, mae ein toreth o draethau yn ymestyn dros 20 milltir ac wedi denu ymwelwyr am genedlaethau. I'r dim ar gyfer picnic a phadlo, taith gerdded i ddeffro'r synhwyrau, neu ychydig o antur ar y dŵr.

Bwced a rhaw

Pen Morfa, Llandudno

Traeth y Gogledd Llandudno

Traethau glân a diogel

Traethau a enillodd wobrau yn 2007

Llandudno Pen Morfa	Gwobr Baner Las Ewrop Gwobr Glan Môr Encams - Cyrchfan
Llandudno Traeth y Gogledd	Gwobr Baner Las Ewrop Gwobr Glan Môr Encams - Cyrchfan
Bae Colwyn/ Llandrillo-yn-Rhos	Gwobr Glan Môr Encams - Cyrchfan
Bae Cinmel	Gwobr Glan Môr Encams – Gwledig
Pensarn ac Abergele	Gwobr Glan Môr Encams - Gwledig
Hen Golwyn	Gwobr Glan Môr Encams - Gwledig
Penmaenmawr	Gwobr Baner Las Ewrop Gwobr Glan Môr Encams - Cyrchfan
Llanfairfechan	Gwobr Glan Môr Encams - Gwledig

Mae gennym draethau o'r radd flaenaf ar ein trothwy. Maent yn hawdd i'w cyrraedd, mae mynediad da atynt, cyfleusterau rhagorol a digon o lefydd parcio. Os ydych am nofio, syrffio, adeiladu cestyll tywod neu efallai'n mwynhau'r awyr iach, gallwch fod yn sicr o draethlin lân a dŵr diogel.

Beth am fynd yn ôl i'ch plentyndod ac i Draeth y Gogledd, Llandudno? Gyda hufen ia, bwcedi a rhawiau, pier Fictorianaidd a phromenâd hir, dyma'r traeth mwyaf poblogaidd yn yr ardal. Mae lle chwarae ar flen y traeth ym Mhenmorfa, efo golygfeydd ysblennydd o Ynys Môn a'r mynyddoedd, creigiau'r Gogarth a'r machludiadau bythgofiadwy dros y dŵr.

Mae traethau Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos yn ddelfrydol ar gyfer nofio, campau dŵr a physgota, efo llwybrau beicio a cherdded ar hyd yr arfordir. Mae parc sglefrio, pwll padlo a lle chwarae i blant ar bromenâd Penmaenmawr, felly mae'n berffaith ar gyfer teuluoedd. Mae yna hefyd res o gytiau traeth traddodiadol, rhag ofn eich bod awydd trochiad yn y ffordd hen ffasiwn. Mae'r traethlinau prysur yng Nghonwy a Deganwy yn berwi efo cychod yn mynd yn ôl ac ymlaen ar ddyfroedd cyflym y foryd.

I fwynhau rhyddid yr awyr agored a chofleidio gwynt y môr, mae gan draeth tywod a graean Bae Cinmel bromenâd hir a gwarchodfa natur ar ochr y tir o'r traeth. Mae gerddi a lle chwarae ar flaen y traeth yn Llanfairfechan a phan fo'r llanw'n isel, mae cyfle gwych i gerdded dros yr ehangder o dywod.

Pan fo'r tymheredd yn gostwng, gwisgwch eich hetiau a'ch sgarffiau a mentrwch i'r traeth oer a gwyntog. Does dim byd tebyg i ddeffro'r corff a'r meddwl. Waeth pa draeth y dewiswch, pa bynnag fis o'r flwyddyn, byddwch yn sicr o syrthio mewn cariad efo'r golygfeydd perffaith o'ch cwmpas.

Blas ar Fwyd

Chwilio am le da i fwyta?

O fwyd cysur i'ch llenwi i bleserau'r archwaeth, blaswch y lletygarwch lleol ac fe welwch pam fod y rhan hwn o'r byd yn enw mawr ar y map coginiol.

Bwyd rhyngwladol rhagorol

Cymdeithasu ym Mae Colwyn

Golygfa gyda'ch bwyd

Bwyta allan yn Llandudno

Bwyd modern cyffrous

Bwyd Cartref

Mae bwyd da yn rhan mawr o'n diwylliant yma yng Nghymru. Mae ein hardaloedd eang o laswellt ffrwythlon ynghyd â'r hinsawdd berffaith ar gyfer tyfu pethau, yn rysáit penigamp ar gyfer cynnyrch o ansawdd sy'n hynod flasus. Mae ein cig eidion du Cymreig a'n cig oen morfa heli yn enwog trwy'r byd, ac mae ein harfordir di-ben-draw yn gwneud y rhan hwn o Gymru yn un o'r prif wledydd bwyd môr hefyd. Mae draenog y môr, cimwch a chregyn gleision ar yr holl fwydlenni gorau.

Os ydych ffansi creu pryd eich hun, mae yna ddigon o lefydd i brynu cynnyrch o ansawdd. Mae yna ystod ffantastig o siopau cigydd, pobydd a groser teuluol sydd wedi eu hen sefydlu, a llond llaw o siopau deli newydd, sy'n cyflenwi'r arbenigeddau gorau o Gymru. O selsig sydd wedi ennill gwobrau i'r bara lawr enwog a chaws a gwin Cymreig, gyda'n golygfeydd godidog, pa well ffordd o fwynhau'r danteithion lleol na bwyta'n al fresco. Mae picnic ar y traeth neu ar y bryniau yn sicr yn gwneud y gorau o'r amgylchoedd gogoneddus hyn.

Bwyta Allan

Pe bai'n well gennych adael y gwaith caled i rywun arall, does dim rhaid i chi fynd yn bell i ddod o hyd i'r llefydd gorau i fwyta allan. Mae Sir Conwy'n berwi o gyrchfannau bwyd rhagorol sy'n cynnig y pâr perffaith o fwyd a diod. Mae bwytai, bwytai cwrw a thai tafarn gastro yn cynnig bwydlenni helaeth efo cynhwysion lleol, rhestrau gwinoedd pwrpasol a chroeso cynnes Cymreig.

Rydym yn caru ein cynnyrch cartref ac rydym yn falch o'i rannu â gweddill y byd. Rydym hefyd yn mwynhau lliwiau a bwydydd byd-eang. Os ydych chithau'n hoff o fwyd rhyngwladol, wnaiff y toreth o fwytai rhagorol sy'n gweini bwyd bendigedig o bob cwr o'r byd mo'ch siomi.

O fwydydd traddodiadol yr oedd ein cyndeidiau yn eu mwynhau i'r peth diweddaraf mewn bwyd, os ydych yn dewis bistro prysur neu brofiad bwyta ychydig mwy cain, yr arwydd mwyaf dibynadwy o le da i fwyta yw os yw'r bobl leol yn bwyta yno hefyd! Pwy a ŵyr? Efallai y dewch o hyd i gilfach gudd yr hoffech ei chadw'n gyfrinach.